
Y CABINET DYDD MAWRTH, 3 TACHWEDD 2020

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Nia Jeffreys, Gareth Griffith, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams a Paul Rowlinson (Cadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi), Dewi Roberts (Aelod Lleol).

Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 4: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg) a Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Dwyfor / Meirionnydd).

Eitem 6: Delyth Williams (Ymgynghorydd Cydraddoldeb) a Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol).

Eitem 7: Geraint Owen (Pennaeth Adran Gefnogaeth Gorfforaethol) ac Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethu Ymgynghorol Adnoddau Dynol)

Eitem 8: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd).

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Cyng. Dewi Roberts gan ei fod yn aelod o fwrdd Llywodraethu Ysgol Abersoch, ond nid oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu felly bu iddo fod yn bresennol ar gyfer yr eitem.

3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

YSGOL ABERSOCH

Cyflwynwyd gan Cyng. Paul Rowlinson

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd na ddylid addasu penderfyniad gwreiddiol y Cabinet a wnaethpwyd ar y 15 Medi 2020 i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 ymlaen mabwysiadu hyn fel penderfyniad terfynol

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad yn gan nodi fod yr eitem yn dod yn ôl i'r Cabinet yn dilyn penderfyniad gan aelodau Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i alw mewn y penderfyniad a wnaethpwyd i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch. Rhoddodd Gadeirydd y Pwyllgor Craffu'r rhesymeg a'r cefndir y tu ôl i benderfyniadau'r Pwyllgor Craffu ynghyd a manylion y bleidlais yn y pwyllgor.

Ychwanegodd yr Aelod Lleol o ganlyniad i'r pandeimig nad yw'r cyfnod sydd i ddod yn gwbl glir o ran cyfyngiadau pellach. O ganlyniad i nododd na fydd cyfle i bawb yn y gymdeithas fod yn rhan o'r ymgynghoriad. Pwysleisiwyd y buasai cau'r ysgol yn golygu colli adnodd yn y gymuned ac yn risg i addysg plant, yr iaith a diwylliant yr ardal. Nododd fod cynnal yr ymgynghoriad yn anghyfiawn ac annheg. Gofynnwyd i'r Cabinet i ohirio'r ymgynghoriad am flwyddyn fel bod modd gobeithio i drafod mewn cyfarfodydd wyneb i wyneb. Holwyd os oedd yn deg parhau oherwydd sefyllfa gyda'r Pennaeth o'r ysgol ar hyn o bryd ac yn amhosib i Lywodraethwyr roi arweiniad.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Aelod Lleol am roi'r sefyllfa bresennol. Mynegodd fod yr adran wedi bod yn gwbl barchus am sefyllfa'r Pennaeth gan nodi fod y trafodaethau wedi ei ohirio unwaith yn barod. Ychwanegwyd o fewn y Ddeddf nad oes rôl statudol i Benaethiaid o fewn yr ymgynghoriad.

Amlygodd y Swyddog Addysg y broses gan nodi fod trafodaethau anffurfiol wedi ei gynnal a bellach yn symud ymlaen i'r ymgynghoriad statudol. Mynegwyd y bydd sesiynau yn cael eu cynnal yn rhithiol, ond bydd sesiynau yn cael ei gynnig, os galw yn codi dros y ffon i ofyn unrhyw gwestiynau. Pwysleisiwyd y bydd angen i unrhyw ymatebiad i'r ymgynghoriad ei gyflwyno yn ysgrifenedig.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Cydymdeimlwyd gyda'r pryderon o wneud ymgynghoriad yn ystod y cyfnod sydd ohoni. Holwyd os oes unrhyw oblygiadau i ohirio'r ymgynghoriad. Nodwyd mai'r prif oblygiadau oedd i addysg y plant. Mynegwyd fod lefel o ansicrwydd o ran y pandemig gan nod oes pendraw ar hyn o bryd. Ychwanegwyd fod gweithdrefnau yn ei lle ar gyfer eu cynnal yn rhithiol.
- Pwysleisiwyd mai addysg y plant yw'r elfen bwysicaf wrth edrych ar y sefyllfa gan bwysleisio mai'r Egwyddorion Addysg sydd yn gyrru'r gwaith.
- Amlygwyd fod y penderfyniad i gau'r ysgol heb ei wneud eto ac mai penderfyniad i fynd i ymgynghoriad sydd wedi ei wneud. Tanlinellwyd tra'n

deall dymuniad bobl i gael cyfarfodydd wyneb yn wyneb i drafod byddai angen i unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad fod yn ysgrifenedig.

- Holwyd os yw'r adran yn gwbl sicr y bydd modd i bawb allu cyfrannu a'r ymgynghoriad. Nodwyd y bydd yr adran yn gwneud pob ymdrech i gael cyfraniad gan bawb sydd eisiau cyfrannu. Ychwanegwyd gyda'r sylwadau sydd wedi ei derbyn yn barod y bydd yr adran yn cysylltu â hwy yn uniongyrchol i holi os ydynt yn fodlon i'r sylwadau gael ei defnyddio yn yr ymgynghoriad.
- Nodwyd fod y wlad bellach mewn pandemig ers misoedd ac os yn gohirio am flwyddyn, nid oes modd gwarantu na fyddwn yn yr un sefyllfa ymhen blwyddyn. Pwysleisiwyd fod modd i bawb gymryd rhan a mynegwyd fod rôl yr aelod lleol am fod yn ganolbwynt i'r ymgynghoriad i sicrhau y bydd llais pawb yn cael ei glywed. Nodwyd ei bod yn ofynnol i symud ymlaen a'r penderfyniad.
- Mynegwyd yr angen i gadw golwg ar yr ymgynghoriad a gofynnwyd i'r adran am adroddiad cyson ar sut mae'r broses yn symud yn ei blaen.

Yn dilyn pwysu a mesur yr hyn a amlygwyd gan y Pwyllgor Craffu, arweiniad swyddogion a'r rhesymau am y penderfyniad gwreiddiol nid oedd y Cabinet yn ystyried bod y materion a godwyd yn cyfiawnhau addasu'r penderfyniad gwreiddiol.

5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 13 HYDREF 2020

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2020 fel rhai cywir.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDRADDOLDEB

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod hi yn ofyniad ar y Cyngor i wneud Cynllun Strategol Cydraddoldeb am bedair blynedd. Mynegwyd mai dyma'r Adroddiad Blynyddol olaf ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb 2016-20. Ychwanegwyd fod yr adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith sydd wedi ei wneud mewn ymateb i'r cynllun hwn. Amlinellwyd amcanion y cynllun gan nodi'r prif lwyddiannau.

Ychwanegwyd pwysigrwydd nodi'r gwaith sydd yn cael ei wneud yr hir dymor a fydd yn parhau dros y blynyddoedd nesaf. Mynegwyd fod yr adroddiad yn amlygu bellach fod cydraddoldeb yn greiddiol yng ngwaith y Cyngor. Nodwyd ei fod ffigyrau'r staff yn amlygu os angen gweithredu pellach ac os yw'r gweithlu yn

amrywiol. Pwysleisiwyd fod cydraddoldeb yn gyfrifoldeb a bawn a diolchwyd i'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb am ei gwaith.

Ychwanegodd Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol fod sicrhau tegwch i bawb yn un o flaenoriaethau'r Cyngor yng Nghynllun y Cyngor sydd yn amlygu pwysigrwydd cydraddoldeb i'r Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod yr adroddiad yn un diddorol a thynnwyd sylw at ganran merched sy'n gynghorwyr yn lleihau a holwyd sut mae modd ei godi. Mynegwyd fod ymdrechion yn cael ei wneud i annog merched i fod yn Gynghorwyr ond fod rôl ran y pleidiau gwleidyddol yn ogystal. Amlygwyd fod ymdrechion wedi ei gwneud cyn etholiad 2017 a bod yr is grŵp amrywiaeth o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn edrych ac arwain y gwaith o hyrwyddo cyn etholiad 2022.
- Holwyd gyda'r sefyllfa sydd ohoni gyda Covid a newid ein ffordd o weithio sut y bydd hyn yn effeithio cydraddoldeb a symud ymlaen. Mynegwyd fod rhai ffactorau wedi ei amlygu, pwysleisiwyd fod grŵp prosiect y Cynllun Cydraddoldeb yn ymwybodol fod angen gwneud pethau yn wahanol ac ymgysylltu mewn ffordd wahanol.

7. COD YMDDYGIAD STAFF

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys

PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd y Cod Ymddygiad Staff ar ran y Cyngor fel cyflogwr

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod angen dod a'r cod ymddygiad er mwyn rhoi arweiniad ar ymddygiad o fewn y Cyngor. Mynegwyd y bydd yn gyrru diwylliant ymlaen ac yn unol â'r Cod Ymddygiad Statudol sydd yn ei le gan Lywodraeth Cymru. Mynegwyd fod gan drigolion Gwynedd yr hawl i ddisgwyl safon uchaf o ymddygiad gan cyflogeion y Cyngor ac mae'r Cod Ymddygiad yn egluro beth yw'r safonau hy. Ychwanegwyd fod y cod yn mynd lawn yn llaw a swydd ddisgrifiadau pob swyddog sydd yn gweithio i'r Cyngor.

Pwysleisiwyd y bydd mabwysiadu'r cod yn rhoi arweiniad i reolwyr yn ogystal. Mynegwyd mai'r cam nesaf fydd yw creu cynllun cyfathrebu ac i fwrw ymlaen gyda'r rhaglen bellach.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod y cod yn amlygu fod y cyngor yn agored i feddwl yn wahanol, ond pwysleisiwyd efallai fod y teitl cod ymddygiad yn negyddol a bygythiol i staff.
- Mynegwyd fod angen i ymarferiad staff angen cyfarch y codi ymddygiad ond yn ymarferol ei fod disgwyliad positif i staff.

8. PENODI TRI SWYDDOG YMGYSYLLTU CYMUNEDOL I GYNORTHWYO GYDA'R GWAITH SYDD YN DEILLIO O'R PANDEMIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Gareth Griffith.

PENDERFYNIAD

Cytunwyd i danysgrifennu'r gost o gyflogi 3 Swyddog Ymgysylltu Cymunedol ar gyfer yr Adran Amgylchedd am gyfnod dros dro, hyd ar 31 Mawrth 2022, gan alluogi'r Pennaeth Adran Amgylchedd i recriwtio cyn gynted ag y bo modd.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad. Mynegwyd ei fod yn gais i danysgrifennu cost penodi tri swyddog i ychwanegu at y tîm. Ychwanegwyd y bydd y Swyddogion Ymgysylltu yn llenwi'r bwch sydd wedi ei amlygu. Nodwyd y bydd y cynllun hwn yn arwain at newid diwylliant o fewn y gwasanaeth a bydd hyfforddiant yn cael ei wneud a fydd yn galluogi'r adran i wneud mwy.

Ychwanegodd y Pennaeth Amgylchedd y bydd yr adnodd ychwanegol yn holl bwysig i drigolion a busnesau yn ystod cyfnod y pandemig. Nodwyd y bydd y swyddogion yma yn ymateb i'r pandemig ac i'r rheoliadau sydd yn newid yn gyson. Pwysleisiwyd mai'r prif beth fydd i gynnig wyneb i'r cyhoeddi a fydd yn eu cynorthwyo drwy'r cyfnod anodd hyn a byddant yn ymwybodol o ble i fynd am gefnogaeth. Drwy hyn bydd yn datblygu'r maes gwarchod y cyhoedd a fydd yn cynorthwyo'r adran i'r dyfodol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Dangoswyd cefnogaeth i'r cais gan amlygu fod y bylchau yn amlwg. Holwyd os oedd tri o swyddog am fod yn ddigonol gyda llwyth gwaith mor uchel.
- Trafodwyd y Cynllun Profi, Olrhain a Diogelu gan fod y staff yn ceisio taro 100% o unigolion o fewn 24 awr a'u bod yn aml yn cyrraedd y nod. Wrth symud ymlaen fod y gwasanaeth wedi cael 18 o staff newydd a fydd yn gweithio saith diwrnod yr wythnos. Ychwanegwyd fod y rhain yn cyfrannu at gadw pobl n saff a bod niferoedd ar hyn o bryd yn gostwng sydd yn amlygu rheolaeth ar draws y sir.
- Amlygwyd y bydd grant yn ariannu rhan o gost y swyddi eleni, a'r posibilrwydd o hawlio grant i ariannu'r gweddill, ond rhag ofn na fydd modd cael yr arian grant fod angen tanysgrifennu'r gost er mwyn symud ymlaen i gyflogi'r 3 Swyddog Ymgysylltu Cymunedol hyd ar 31 Mawrth 2022.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:00 a daeth i ben am 14:50